Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Delio â chwynion a wnaed yn erbyn aelodau, ysgrifenyddion a chadeiryddion pwyllgorau ymgynghorol

**Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor, Atodiad 1J**

## Rhagymadrodd

1. Disgwylir i aelodau pwyllgor ymgynghorol gadw at yr un safonau uchel o ran ymddygiad personol ag sy'n ofynnol gan ynadon.

2. Dylid cyfeirio cwynion yn erbyn aelodau pwyllgor ymgynghorol at gadeirydd y pwyllgor. Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio cwynion am gadeiryddion at yr ysgrifennydd. Dylid cyfeirio cwynion am ysgrifenyddion at y rheolwr llinell GLITEF perthnasol.

3. Dylid ymdrin â phob cwyn yn deg ac yn brydlon yn unol â'r prosesau perthnasol, a fydd yn amrywio gan ddibynnu ar statws yr unigolyn.

## Aelodau a chadeiryddion sy'n ynadon

4. Fel deiliaid swyddi barnwrol, dylid ymdrin â chwynion am aelodau sy'n ynadon (neu gadeiryddion sydd hefyd yn ynadon) yn eu rôl ar y pwyllgor ymgynghorol yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol i ymchwilio i gwynion am ymddygiad personol ynadon.[1] Pan wneir cwyn yn erbyn ynad mewn perthynas â'u dyletswyddau fel ynad neu yn rhinwedd eu swyddogaeth bersonol, dylai'r pwyllgor ymchwilio hefyd ystyried effaith y camymddygiad posibl ar eu dyletswyddau ar y pwyllgor ymgynghorol a gwneud argymhellion o ran y ddwy rôl. Gall y pwyllgor argymell (drwy Dîm Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol) gwahardd aelod o ddyletswyddau'r pwyllgor tra cynhelir yr ymchwiliad. Pan fo hynny'n digwydd bydd ysgrifennydd y pwyllgor yn trafod gyda'r aelod p'un a fyddant yn wirfoddol yn atal rhag ymgymryd â dyletswyddau ynad tra bydd y mater yn cael ei ddatrys.

## Aelodau a chadeiryddion nad ydynt yn ynadon

5. Er nad yw'r rheolau a grybwyllwyd yn berthnasol i aelodau nad ydynt yn ynadon, gallant helpu i ddarparu fframwaith ar gyfer ymchwilio i gwynion am aelodau nad ydynt yn ynadon (a chadeiryddion nad ydynt yn ynadon). Felly, cynghorir pwyllgorau i fabwysiadu proses sy'n cyfateb yn fras i'r hyn a nodir yn y rheolau wrth ymchwilio i honiad a wneir yn erbyn aelod nad yw'n ynad neu gadeirydd pwyllgor nad yw'n ynad.

## Osgoi gwrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o ragfarn

6. Yn aml bydd yn briodol gofyn i bwyllgor cyfagos ddelio ag ymchwiliad, i osgoi'r risg o wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o ragfarn. Os oes amheuaeth, dylai cadeiryddion ymgynghori â Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (JCIO) (yn achos ynadon) neu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol (yn achos unigolion nad ydynt yn ynadon).

7. Pan wneir cwyn am gadeirydd, dylai ysgrifennydd y pwyllgor drefnu iddi gael ei hystyried gan bwyllgor ymgynghorol cyfagos.

## Sancsiynau

8. Pan gaiff cwyn ei chadarnhau, mae'r sancsiynau sydd ar gael i'r Arglwydd Ganghellor yn cynnwys: rhoi rhybudd ysgrifenedig, cerydd, neu gyngor; cyfarwyddo aelod i ymgymryd â hyfforddiant pellach a/neu i roi ymrwymiad ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol; neu, os oedd y camymddwyn yn ddigon difrifol, terfynu aelodaeth yr unigolyn o'r pwyllgor. Mewn achosion eithriadol, gall yr Arglwydd Ganghellor hefyd atal

---

1 https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/jcio-prod-storage-1xuw6pgd2b1rf/uploads/2015/12/uksi_20141919_en.pdf

https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/jcio-prod-storage-1xuw6pgd2b1rf/uploads/2015/12/Judicial_Conduct_Magistrates_Rules_2014.pdf

unigolyn o’r pwyllgor tra bydd cwyn yn cael ei hymchwilio.

9. Yn dilyn cynnal ymchwiliad yn lleol, os ystyrir ei bod yn briodol argymell i’r Arglwydd Ganghellor ei fod yn cymryd unrhyw un o’r camau uchod mewn perthynas ag aelod nad yw’n ynad, dylai’r pwyllgor anfon ei argymhellion at Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol, i baratoi’r cyngor angenrheidiol ar gyfer yr Arglwydd Ganghellor. Bydd argymhellion mewn perthynas ag aelodau sy’n ynadon (neu gadeiryddion) yn cael eu hanfon naill ai drwy’r JCIO (os gallai difrifoldeb y mater warantu cymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod yn rhinwedd ei swydd fel deiliad swydd farnwrol) neu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol os na fyddai’r mater yn cyfiawnhau argymhelliad o gamau disgyblu ond y gallai fod angen cymryd camau sy’n debyg i gyngor bugeiliol y byddai cadeirydd y fainc yn ei roi i ynad. (Er enghraifft, gallai hyn fod yn nodyn atgoffa i’r aelod sy’n ynad o’r ymddygiad a ddisgwylir gan ddaliwr swydd gyhoeddus sy’n cael ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.)

**Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol**

10. Fel y nodwyd uchod, dylid cyfeirio cwynion am ysgrifenyddion pwyllgorau ymgynghorol at reolwr llinell perthnasol GLITEF, ac ymdrinnir â hwy yn unol â Pholisi a Chanllawiau Disgyblaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

11. Pan fo’n briodol; er enghraifft, yn achos cwyn am ysgrifennydd mewn perthynas ag ymchwiliad i aelod sy’n ynad, bydd y broses yn ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy’n bodoli rhwng y JCIO a GLITEF, sy’n ymdrin â’r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn cyflogeion GLITEF sy’n deillio o’u cysylltiad â’r broses disgyblu farnwrol.

**Arweiniad Pellach**

12. Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch delio â chwynion yn erbyn aelodau nad ydynt yn ynadon (neu gadeiryddion nad ydynt yn ynadon) at Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol. Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch delio â chwynion yn erbyn aelodau sy’n ynadon (neu gadeiryddion) at OJC os yw’r mater o natur mor ddifrifol fel y byddai fel rheol yn golygu bod y mater yn cael ei ymchwilio gan banel ymchwilio i ymddygiad. Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy’n gyfrifol am gynghori rheolwyr llinell ynghylch delio â chwynion yn erbyn ysgrifenyddion.